

Prifysgol Bangor

CANLLAWIAU AR GYFER UWCH DIWTORIAID

Mae'r canllawiau hyn yn diffinio cyfrifoldebau Uwch Diwtoriaid. Gellir trosglwyddo rhai o'r cyfrifoldebau hyn i staff eraill mewn Ysgolion/Adrannau. Gall Uwch Diwtoriaid gymryd swyddogaethau ychwanegol mewn rhai Ysgolion/Adrannau sy'n gysylltiedig â chefnogaeth myfyrwyr, ond nid ydynt yn cael eu diffinio yn y canllawiau hyn fel swyddogaeth Uwch Diwtor (e.e. Swyddog Arholiadau). Dylai staff sy'n ymgymryd â swyddogaeth Uwch Diwtor edrych ar y canllawiau hyn felly, a dylent hefyd ystyried cyfrifoldebau penodol eraill a roddir i Uwch Diwtoriaid yn eu Hysgol/Adran.

Disgwylir y bydd Uwch Diwtoriaid yn gwneud y canlynol:

1. Cyd-drefnu pennu myfyrwyr i diwtoriaid a phennu tiwtoriaid yn eu lle ar sail dros dro neu barhaol os oes angen.
2. Sicrhau bod trefn yn bodoli i nodi a diweddarau manylion y tiwtor yng nghofnod y myfyriwr.
3. Sicrhau y rhoddir tiwtor priodol i fyfyrwyr Cyd-Anrhydedd.
4. Datblygu a monitro systemau i sicrhau bod Byrddau Arholi Adrannol, yn gwybod am amgylchiadau personol myfyrwyr, lle bo'n berthnasol, a chyda chaniatâd y myfyriwr. Mae hyn yn cynnwys Byrddau Arholi sy'n gyfrifol am raddau ar y cyd. Fel rheol, bydd y ffurflenni Tiwtor/Myfyriwr sydd ar gael drwy Banner yn rhan o'r cyfryw systemau.
5. Monitro cymhareb myfyrwyr i diwtoriaid i sicrhau y rhennir cyfrifoldebau'n deg ymhlith staff a bennir fel tiwtoriaid mewn Ysgol/Adran.
6. Sicrhau bod tiwtoriaid yn ymwybodol o'r Cynllun Tiwtoriaid Personol yn yr Ysgol/Adran. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu â'r Gwasanaethau Myfyrwyr i sicrhau y rhoddir i diwtoriaid ddogfennau priodol a manylion am y gwasanaethau cefnogi sydd ar gael i fyfyrwyr.
7. Cysylltu â'r Gwasanaethau Myfyrwyr i sicrhau y nodir anghenion datblygu posibl staff mewn cysylltiad â chefnogaeth a lles myfyrwyr.
8. Mynd i gyfarfodydd Y Grŵp Uwch Diwtoriaid.
9. Sicrhau y diffinnir yn glir weithrediad y Cynllun Tiwtoriaid Personol yn yr Ysgol/Adran a bod dulliau i sicrhau yr adolygir ansawdd y Cynllun yn rheolaidd.
10. Rhoi gwybodaeth berthnasol i diwtoriaid yn gysylltiedig â chefnogaeth a lles myfyrwyr y gellir ei chyfeirio at yr Uwch Diwtor.
11. Sicrhau bod manylion y Cynllun Tiwtoriaid Personol yn cael eu cyhoeddi mewn Llawlyfrau Adrannol.
12. Sicrhau bod dulliau i roi gwybod i diwtoriaid am fyfyrwyr sydd angen ystyriaeth benodol.

Steph Barbaresi
1 Medi 2016